# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 23-08 (p3) : 8 Hydref 2008**

## Ymateb dros dro y Pwyllgor i'r Mesur Prentisiaethau Drafft

### Diben

Rhoi sylwadau a chytuno ar ymateb dros dro y Pwyllgor i'r Mesur Prentisiaethau Drafft.

### Cefndir

Cyhoeddwyd y Mesur Prentisiaethau Drafft ar 16 Gorffennaf. Mae'r ymgynghoriad arno yn cau ar 8 Hydref.

Ar 24 Medi fe graffodd y Pwyllgor ar y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a CBI Cymru. Codwyd amryw o faterion cyfansoddiadol a gweithdrefnol. Fe ymgymerodd y Dirprwy Weinidog i egluro taith y Mesur drwy'r Senedd yn gliriach ac i ddarparu'r ymateb i gais Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddarpariaethau ar gyfer y Rhaglen Prentisiaethau. O ganlyniad, gofynnir i'r Pwyllgor gytuno ar ei adroddiad terfynol yn nes ymlaen yn y tymor ar ôl derbyn gwybodaeth bellach a chraffu ar y Dirprwy Weinidog.

Mae'r ymateb dros dro gerbron y Pwyllgor heddiw, yn ymgais i grynhoi'r prif faterion a drafodwyd hyd yma, er mwyn ymateb i wahoddiad Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau i roi sylwadau ar y Mesur Drafft.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor roi sylwadau a chytuno ar yr ymateb dros dro i'r Mesur Prentisiaethau Drafft a geir yn Atodiad 1.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2008**